MC
MATERION CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

Mawrth 2019. Rhifyn 21

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

PENNU CYLLIDEB Y DDINAS

Ar ôl ymgynghori'n helaeth gyda'r cyhoedd a'i bartneriaid, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi pennu ei gyllideb ar gyfer 2019/20.

Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror, trafodwyd adborth ar y cynigion arbedion drafft a roddwyd gerbron ym mis Rhagfyr, a rhoddwyd argymhellion i'r cyfarfod llawn o'r Cyngor ar ddiwedd y mis.

Ers paratoi'r gyllideb ddrafft ar ddiwedd 2018, mae ffigwr setliad terfynol y Cyngor wedi cadarnhau grant gwell gan Lywodraeth Cymru a chynnydd yng nghyllid sail y dreth gyngor - nifer yr aneddiadau yn ardal yr awdurdod ac felly lefel ddisgwyliedig yr incwm a ddaw drwy'r dreth gyngor.

O ganlyniad, ystyriodd y Cabinet weddill cadarnhaol o £655 mil a sut gellid buddsoddi hwn neu ei ddefnyddio yn erbyn arbedion arfaethedig.

Penderfyniad allweddol oedd cynyddu'r dreth gyngor gan 5.95 y cant; llai na'r cynnydd arfaethedig gan 6.95 y cant.

Mae'r rhan fwyaf yr eiddo yng Nghasnewydd ym mandiau A, B a C, sy'n golygu cynnydd wythnosol o ddim mwy na £1.08.

Hyd yn oed gyda'r cynnydd hwn, disgwylir y bydd cyfraddau treth gyngor Casnewydd yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.

GALLWCH AILGYLCHU CYMAINT – A GWASTRAFF BWYD HEFYD

Plastic/Plastig

+

Metal/Metel

Cardboard/Cardbord

+

Glass/Gwydr

Paper/Papur

+

Electrics/Eitemau

+

Textiles/Tecstilau

Food/Bwyd

Garden Waste/Gwastraff Gardd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gobeithio y bydd y llun hwn o ba eitemau y gallwch eu hailgylchu ym mha focsys o gymorth i'n trigolion.

Mae'r neges atgoffa hon yn cael ei hanfon mas oherwydd, o Ebrill 2019, mae'r cyngor yn rhoi cyfyngiadau ar faint o wastraff a gaiff ei gasglu o gartrefi. Mae dadansoddiad diweddar yn dangos y gallai mwy na hanner cynnwys ein biniau olwynion gael ei ailgylchu – ac mae casgliadau ailgylchu wythnosol yn golygu y gall aelwydydd dorri i lawr yn hawdd ar sbwriel nad oes modd ei ailgylchu. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r hyn y gellir ei ailgylchu ar wefan Wastesavers – wastesavers.co.uk, ond dyma nodyn atgoffa cyflym:

BAG COCH: Poteli plastig, potiau iogwrt, poteli glanhau'r cartref, cynwysyddion ffoil glân, caniau gan gynnwys erosolau.

BOCS GWYRDD: Cardfwrdd, pecynnau Tetra, poteli a jariau gwydr (golchwch os gwelwch yn dda)

BOCS GLAS: Papur, eitemau bach trydanol y cartref, fel tostwyr a lampau, a thecstilau, gan gynnwys dillad ac esgidiau.

CADIS BWYD BROWN: Unrhyw eitem fwyd, gan gynnwys esgyrn anifeiliaid, plisg wyau, ffrwythau a llysiau – gall y rhain i gyd fynd yn y cadi bagiau gyda'r bagiau'n cael eu storio yn y cadi clo mwy o faint ar gyfer casgliadau wythnosol.

BIN CAEAD OREN: glaswellt wedi'i dorri, toriadau llwyni, dail a ffrwyth yr ardd, canghennau bach a brigau

I weld y stori lawn ewch i dudalen 2

MAE PRIFYSGOL DE CYMRU YN ACHUB Y BLAEN AR SEIBER-HYFFORDDIANT

Mae Prifysgol De Cymru yn achub y blaen ar seiber-hyfforddiant i arddegwyr.

Mae Prifysgol De Cymru'n un o'r prifysgolion cyntaf yn y DU i feddu ar ddeunyddiau sydd wedi'u datblygu'n benodol ag achrediad baner CyberFirst y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Seiber-Ddiogelwch (NCSC).

Arweinir y fenter gan yr NCSC ac mae'n cynnwys cyrsiau, bwrsariaethau a chystadlaethau sydd wedi'u dylunio i ysbrydoli myfyrwyr i ystyried seiber-ddiogelwch fel gyrfa.

Ar gyfer y rhai 11-17 oed, mae cyrsiau CyberFirst yn rhoi cyfle i bobl ifanc roi cynnig ar amrywiaeth o heriau sy'n ymwneud â seiber-ddiogelwch. Cynhelir digwyddiadau ar draws y sir i roi syniad i bobl ifanc o'r byd seiber a chyfle i ddysgu mwy am weithio yn y sector.

Bu Prifysgol De Cymru yn peilota digwyddiad CyberFirst i ysgolion ym mis Hydref diwethaf pan oedd bron 40 myfyriwr 16-17 oed yn defnyddio deunyddiau arbenigol a ysgrifennwyd gan dîm seiber-ddiogelwch y brifysgol, mewn digwyddiad yr arsylwyd arno gan aelod o staff yr NSCS.

Mae'r gweithgareddau bellach wedi'u cymeradwyo gan CyberFirst, sy'n golygu mai Prifysgol De Cymru yw'r sefydliad cyntaf i greu ei gweithgareddau ei hun ar gyfer y digwyddiad.

Meddai Clare Johnson, Pennaeth Seiber-Ddiogelwch ym Mhrifysgol De Cymru:

"Rydym wrth ein boddau i allu brandio'r gweithgareddau allgymorth hyn o dan faner CyberFirst. Menter wych yw CyberFirst i helpu i ysbrydoli ac ysgogi'r genhedlaeth nesaf o seiber-arbenigwyr ac mae bod yn rhan o hyn yn gyffrous iawn."

Bydd y gweithgareddau ar gael yn fuan ar wefan yr NSCS i eraill eu defnyddio.

I gael mwy o fanylion, e-bostiwch **clare.johnson@southwales.ac.uk**

HELPWCH NI I AILGYLCHU MWY



O fis Ebrill 2019, bydd y Cyngor yn cyfyngu ar swm y sbwriel a gesglir o gartrefi. Caiff biniau olwynion 120 litr eu cyflwyno dros dri mis, gan ddisodli'r biniau 180 litr presennol.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn gwario £2.2m ar waredu gwastraff i'w losgi a'i dirlenwi pan gellid osgoi'r rhan fwyaf o hyn. Dengys arolygon diweddar y gellid ailgylchu dros hanner cynnwys ein biniau olwynion.

Mae cyfraddau ailgylchu yng Nghasnewydd wedi gwella'n aruthrol dros y 15 mlynedd ac maent bellach yn 60+ y cant.

Mae Casnewydd eisoes yn un o'r dinasoedd sy'n perfformio orau yn y DU o ran ailgylchu; fodd bynnag, er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, sef 70%, ac osgoi cosbau ariannol trwm, mae angen i ni ailgylchu mwy.

Ni chaniateir eitemau y gellir eu hailgylchu'n hawdd (papur, cardbord, poteli plastig, caniau/tuniau, poteli gwydr a jariau), gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd mewn biniau sbwriel aelwydydd mwyach.

Er bod y rhan fwyaf o'n preswylwyr eisoes yn gwneud defnydd rheolaidd o'r gwasanaeth ailgylchu, mae angen bellach i bawb wahanu eu deunydd ailgylchu. I'ch helpu i gyflawni hyn, bydd ceisiadau rhesymol am gynwysyddion ychwanegol ar ffurf blychau gwyrdd/glas, bagiau coch a chadis bwyd yn cael eu hystyried.

Bydd y biniau olwynion llai newydd yn gweithredu fel arweiniad gweledol clir i derfyn y gwastraff o hyn ymlaen, ond rydym yn annog preswylwyr i fynd ymhellach a chynyddu eu hymdrechion ailgylchu ac ailddefnyddio cymaint â phosib.

Bydd tîm addysg a gorfodi newydd yn gweithio gyda phreswylwyr nad ydynt yn ailgylchu neu sy'n gorlenwi eu biniau sbwriel.

Mae cyfyngiadau ar symiau sbwriel eisoes wedi'u cyflwyno gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru sydd wedi arwain at welliannau mawr yn y cyfraddau ailgylchu.

Yng Nghasnewydd, amcangyfrifir y bydd y newidiadau yn arwain at arbedion cyllidebol sylweddol yn y tymor hir.

Bydd gwybodaeth fanylach ar gael i bob preswylydd cyn y newidiadau.

CYLLIDEB 2019/20

Parhad o dudalen 1
Meddai'r Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd y Cyngor

"Er bod y dreth gyngor yn cyfrannu llai na chwarter at gyfanswm y gyllideb, rydym yn cydnabod bod hyn yn gost sylweddol i aelwydydd. Yn ein trafodaethau cynnar gwnaethom rybuddio y byddai'n rhaid i ni ystyried ei chodi'n sylweddol, er nad oedd unrhyw un yn dymuno gwneud hyn.

"Fodd bynnag, mae'r 'arian parod' hwn wedi rhoi opsiynau i ni ac roeddwn i a'r aelodau Cabinet yn meddwl ei bod hi'n bwysig defnyddio ychydig o'r arian hwnnw i leihau'r cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor."

"Rydym hefyd wedi dewis buddsoddi peth o'r arian hwn yn ôl i'r gwasanaethau cymorth addysg. Ynghyd â'n hymrwymiad i gynnig addysg wych, byddwn yn dal i gefnogi lles ein myfyrwyr gydag arbenigedd ein swyddogion lles addysg a'r seicolegydd addysg."

Newid arall a wnaed yn sgil y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod oedd gohirio'r cynnydd arfaethedig yng nghostau trwyddedau parcio i breswylwyr. Bydd y ffi nawr yn cynyddu o 1 Gorffennaf 2019 pan fydd y cyfrifoldeb am weithdrefnau gorfodi parcio yn cael ei drosglwyddo o Heddlu Gwent i'r cyngor.

"Gobeithiaf y bydd preswylwyr yn cydnabod pa mor ddifrifol yw ein cyfrifoldeb ni i osod cyllideb gytbwys. Yn syml, mae gennym lai o arian a staff nag erioed, ond mae disgwyl i ni ddarparu cannoedd o wasanaethau yn y ddinas o hyd.

"Drwy gydol y broses hon, y ffocws yw diogelu gwasanaethau hanfodol a'n trigolion bregus, a sicrhau bod ein dinas yn tyfu yn y dyfodol."

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

TRWYDDEDU YCHWANEGOL AR GYFER (TAI AMLFEDDIANNAETH)

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn estyn cynllun sy'n diogelu iechyd a diogelwch tenantiaid mewn tai amlfeddiannaeth.

Mae aelod cabinet y Cyngor dros drwyddedu a rheoleiddio, y Cynghorydd Ray Truman, wedi cymeradwyo Cynllun Trwyddedu Ychwanegol pum mlynedd arall ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o 1 Mehefin 2019 ymlaen, a fydd yn cymryd lle'r cynllun cyfredol sy'n dod i ben ar ddiwedd mis Mai.

Mae trwyddedau tai amlfeddiannaeth ychwanegol yn galluogi'r Cyngor i reoleiddio amodau mewn tai amlfeddiannaeth llai ym mhob rhan o'r ddinas na fyddent wedi'u trwyddedu fel arall. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo y mae tri neu fwy o denantiaid nad ydynt yn perthyn i'w gilydd yn byw ynddo - tai a rennir neu fflatiau un ystafell yw'r rhain fel arfer.

Gellir cynnwys eiddo sydd wedi'u troi'n fflatiau hefyd yn dibynnu ar safon y gwaith dan sylw.

Diben trwyddedau tai amlfeddiannaeth yw diogelu iechyd a diogelwch tenantiaid a sicrhau nad yw tai amlfeddiannaeth yn achosi problemau i gymunedau lleol trwy gael eu rheoli'n wael.

DIWRNOD AGORED Y PLASTY

Dydd Sul 17 Mawrth 2019

Cynllunio eich seremoni briodas neu bartneriaeth sifil? Dewch i ymuno â ni ar ein diwrnod agored rhwng 11am a 3pm, dydd Sul 17 Mawrth pan fyddwn yn hapus i'ch tywys o gwmpas ystafelloedd seremoni'r Plasty ac ateb eich ymholiadau.

Os ydych yn chwilio am rywbeth ychydig yn wahanol, rydym yn cynnig cyfle newydd eleni i gynnal seremonïau yn ystod yr wythnos y tu allan ar diroedd hardd y Plasty neu ar feranda'r llawr gwaelod, gan ddibynnu ar yr amser rydych wedi'i ddewis ar gyfer eich seremoni ac, wrth gwrs, os ydych wedi trefnu hyn gyda ni ymlaen llaw.

Os na allwch ddod, e-bostiwch registrar@newport.gov.uk i gael mwy o wybodaeth neu ewch i **www.newport.gov.uk/registeroffice**

AILWAMPIO FFREUTURAU YSGOL

Mae'r darparwr prydau ysgolion Chartwells wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Dinas Casnewydd i wella'r cyfleusterau ffreutur.

Cynhaliwyd dau broject mawr yn Ysgol Gynradd Maesglas ac yn Ysgol Gynradd Pillgwenlli.

Yn flaenorol, roedd y cyfleuster yn ysgol gynradd Maesglas yn cynnig prydau a gafodd eu cludo i'r ysgol ond mae yno nawr gegin gyflawn lle y gellir coginio prydau ar y safle.

Bellach,mae gan Billgwenlli ardal gweini sy'n well o lawer. Cyflawnwyd gwaith mewn ysgolion eraill hefyd ar raddfa lai yn rhan o'r rhaglen gwerth £150,000 a ariannwyd gan Chartwells.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Gail Giles: *"Diolch i Chartwells am gyflawni'r gwelliannau hyn oedd mawr eu heisiau ac a fydd yn gwella'r profiad bwyta sydd gan y plant yn Ysgolion Cynradd Maesglas a Phillgwenlli."*

CYNGOR YN CEFNOGI YMGYRCH CYFRAITH LUCY

Pleidleisiodd aelodau Cyngor Dinas Casnewydd yn unfrydol i gefnogi cynnig gan arweinydd y cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox, i gefnogi Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy.

Mae'r cyngor wedi ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau sy'n galw am wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach, gan ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i fridwyr trwyddedig yn unig gael gwerthu cŵn bach fel busnes.

Efallai na fyddai gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu, fel sy'n cael ei gynnig gan Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy, yn dileu ffermio cŵn yn llwyr, ond mae'n strategaeth effeithiol i leihau maint y broblem a gorfodi bridwyr i godi safonau.

AROLYGIAD ADDYSG GADARNHAOL

Mae arolygiad diweddar ar wasanaethau addysg yng Nghasnewydd wedi dangos cryfderau mewn meysydd allweddol gan gynnwys cynnydd dysgwyr o fewn ysgolion cynradd a chymorth i ddisgyblion sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Rhoddodd y tîm arolygu sylw i nifer o nodweddion cadarnhaol gan gynnwys:

- mae perfformiad cyfnod allweddol 4 (TGAU) wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf mewn dangosyddion allweddol gan gynnwys Saesneg a Mathemateg
- mae dysgwyr yn gwneud cynnydd mawr yn ystod eu cyfnod mewn ysgolion cynradd Casnewydd
- mae cymorth i ddisgyblion sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol yn effeithiol iawn
- mae swyddogion yr awdurdod lleol yn adnabod eu hysgolion yn dda ac mae ganddynt bartneriaethau cryf gydag ysgolion unigol, gan ddarparu cymorth a her
- mae'r gwaith i wella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau yn bwrpasol ac mae bron pob ysgol yn gweithredu strategaethau'n gyson

Dywedodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Gail Giles:

"Dyma adroddiad positif i Gasnewydd ac rwy'n falch iawn o weld bod meysydd sydd wedi gwella, yn benodol ar lefel TGAU, wedi cael eu cydnabod.

"Rydym yn cydnabod bod meysydd sydd angen eu gwella mwy ond rwy'n hyderus ein bod ni eisoes wedi adnabod y rhain ac wedi rhoi cynlluniau ar waith."

Roedd argymhellion Estyn yn cynnwys gwella perfformiad mewn ysgolion uwchradd a deilliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYADd). Mae hunanwerthusiadau sydd wedi'u gwneud yng Nghasnewydd wedi nodi'r rhain yn flaenoriaethau allweddol ac mae'r blaenoriaethau hyn eisoes yng nghynllun y gwasanaeth addysg a chynllun busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Hefyd nodwyd yn argymhellion yr adroddiad bod Cyngor Dinas Casnewydd eisoes wedi ymrwymo i agor pedwaredd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

YR ARWEINYDD YN LLOFNODI SIARTER Y GYMDEITHAS CLEFYD NIWRONAU ECHDDYGOL

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi llofnodi cytundeb yn cefnogi cynigion yn Siarter y Gymdeithas Clefyd Niwronau Echddygol (y Gymdeithas CNE).

Llofnodwyd y ddogfen gan y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, mewn seremoni fer yn y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd.

Cytunodd y cynghorwyr yn unfrydol ar gynnig gan y Cynghorydd Wilcox a eiliwyd gan y Cynghorydd Trevor Watkins yng nghyfarfod cyngor llawn mis Ionawr i fabwysiadu Siarter y gymdeithas CNE yn ffurfiol i gefnogi pobl leol sy'n byw gyda'r clefyd angheuol hwn a'u gofalwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox: *"Gall pobl â chlefyd niwronau echddygol, a'u teuluoedd, ganfod bod eu bywydau yn newid yn arswydus o gyflym."Mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi'n dda wrth iddynt ddod i delerau â'r diagnosis a byw gyda chyflwr mor gyfyngol.*

"Rwy'n gobeithio y bydd cefnogaeth y cyngor i'r siarter yn codi ymwybyddiaeth o'r Clefyd Niwronau Echddygol ac yn arwain at fwy o bobl sy'n dioddef yn cael y gofal sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl, gan hefyd wneud i eraill ddeall y clefyd yn well os byddant yn dod ar draws dioddefwr."

Mae'r siarter yn fenter y Gymdeithas CNE sy'n pennu pa ofal a chymorth y mae pobl sy'n byw gyda CNE a'u gofalwyr yn eu haeddu a'u parchu.

Mae'n cynnwys pum pwynt:

- Yr hawl i gael eu trin fel unigolion, gydag urddas a pharch
- Yr hawl i gael diagnosis cynnar a gwybodaeth
- Yr hawl i gael gofal a thriniaethau o ansawdd
- Yr hawl i wneud y gorau o safon eu bywyd

Yn y cefn ar y chwith, Y Cynghorydd Giles Davies, cyswllt ymgyrch MNDA Judith Rice, yn y blaen, arweinydd y cyngor y Cynghorydd Debbie Wilcox, y Maer y Cynghorydd Malcolm Linton

- Mae gan ofalwyr pobl sydd â CNE yr hawl i gael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu cefnogi a'r hawl i'w llais gael ei chlywed.

"Drwy fabwysiadu'r siarter CNE, rydym yn dangos ein bod yn cefnogi y rheiny yn y ddinas ac yn bellach i ffwrdd, sy'n byw gyda'r clefyd hwn, yn ogystal â'u gofalwyr, a byddwn yn gwneud popeth sydd o fewn ein gallu i gefnogi ymgyrch y gymdeithas hon," ychwanegodd y Cynghorydd Wilcox.

Roedd Maer a Maeres Casnewydd, y Cynghorydd Malcolm Linton a Mrs Sharon Linton yn westeiwyr yn yr ymweliad gan gynrychiolwyr CNE i nodi'r seremoni llofnodi swyddogol.

Ymysg y gwesteion roedd Judith Rice, cyswllt ar gyfer yr ymgyrch y Gymdeithas CNM, y Cynghorydd Giles Davies, Pencampwr y Gymdeithas CNM Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a'r Cynghorydd Trevor Watkins.

Dewiswyd y Gymdeithas CNE gan y Maer fel un o'r elusennau y mae'n eu cefnogi yn ystod ei flwyddyn yn y rôl. Yr elusen arall yw Epilepsy Action Cymru.

Ceir rhagor owybodaeth am siarter y Gymdeithas CNE **www.mndassociation.org/mndcharter**

OES GENNYCH CHI YSTAFELL SBÂR AC AMSER SBÂR?

Mae Llamau, mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd, yn awyddus i sicrhau lleoliadau ledled y ddinas i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd neu nad ydynt yn barod i fyw ar eu pen eu hunain.

Fel darparwr Llety â Chymorth byddwch yn helpu person ifanc i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen i fyw'n annibynnol.

Byddem ni'n cynnig y cymorth ariannol ac ymarferol sydd ei angen arnoch i'w helpu gyda thasgau fel coginio, cyllidebu, neu sut i sortio biliau; eu hannog gyda gwaith coleg neu roi cefnogaeth emosiynol iddynt.

Mae pob person ifanc yn wahanol, a bydd rhaid i chi a'r unigolyn benderfynu gyda'ch gilydd pa fath o gymorth sydd ei angen arno.

Os ydych yn teimlo bod gennych yr amser a'r lle i gynnig y cyfle i berson ifanc gael lleoliad sefydlog a chefnogol, cysylltwch â Julie Richards ar 01633 244134 neu e-bostiwch i **julierichards@llamau.org.uk**

Llamau

SEREN AUR I YSGOLION YNG NGHASNEWYDD

Cafodd Ysgol Gynradd Sant Julian y radd uchaf ymhob un o bum categori - safonau; cymorth a chanllawiau gofal; dysgu ac addysgu; llesiant ac arweiniad.

Canfu arolygwyr fod disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda gan drin ei gilydd ac oedolion gyda pharch mawr.

Dywedodd yr adroddiad hefyd *"Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu eithriadol."*

Dywedodd y Pennaeth, David Rees, mai staff yr ysgol oedd yn gyfrifol am lwyddiant yr ysgol, a'u bod yn gweithio'n galed iawn, a thîm o lywodraethwyr rhagorol a disgyblion gwych yn gefn iddynt.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Debbie Wilcox: "Llongyfarchiadau i'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni ar adroddiad arolygu hollol wych. Mae'n adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad pawb yn yr ysgol ac mae'n haeddiannol iawn."

Cafodd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Michael hefyd adroddiad da iawn, gydag Estyn yn nodi bod llesiant disgyblion ac ymgysylltu â theuluoedd wrth galon gweledigaeth ac athroniaeth yr ysgol.

Canfu'r arolygwyr bod canlyniadau da ymhob un o'r pum maes.

Dywedodd Peter Landers, cadeirydd y llywodraethwyr; "Rydym wrth ein bodd gyda'r adroddiad hynod gadarnhaol hwn sy'n tynnu sylw at ein hymrwymiad at les disgyblion ac ymglymu a theuluoedd.

"Mae'r staff i gyd, dan arweiniad angerddol Mrs Jill Manship, yn cydweithio'n wych i roi'r profiad dysgu gorau posibl i'n plant."

Dywedodd yr aelod cabinet dros addysg a sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Gail Giles:

"Llongyfarchiadau i holl staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni Ysgol Gynradd Gatholig Sant Michael am yr adroddiad ardderchog hwn. Dylen nhw ymfalchïo yn y safonau uchel sydd wedi arwain at yr arolygiad llwyddiannus hwn. Rwy'n siŵr y byddan nhw'n parhau gyda'r gwaith da maen nhw'n ei wneud."

Pennaeth David Rees gyda'r disgyblion

PARCIO'N DDIOGEL

Mae modurwyr ledled Gwent yn cael eu hatgoffa y bydd cyfrifoldeb dros orfodi parcio'n symud o Heddlu Gwent i awdurdodau lleol eleni.

Bydd pum cyngor Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) yn cymryd rheolaeth dros Orfodi Parcio Sifil dros y misoedd nesaf.

Bydd cyfrifoldeb dros orfodi deddfau eraill yn ymwneud â thraffig, yn enwedig o ran troseddau mwy difrifol neu pan fo angen er diogelwch y cyhoedd, yn aros gyda Heddlu Gwent.

Mae dyddiadau'r newid yn amrywio. Caerffili a Sir Fynwy fydd gyntaf, ar 8 Ebrill 2019. Wedyn Blaenau Gwent ar 30 Mehefin 2019 a chynghorau Casnewydd a Thorfaen ar 1 Gorffennaf 2019.

Bydd swyddogion gorfodi'n cyflawni gweithgareddau gorfodi mewn trefi a phentrefi ledled y rhanbarth, ac os bydd cerbyd wedi ei barcio'n anghyfreithlon, bydd ganddynt bŵer i gyflwyno Hysbysiad Tâl Cosb.

Gwent yw'r unig ardal heddlu lle mae'r heddlu sy'n dal i gyflawni gwaith gorfodi parcio. Bydd trosglwyddo'r cyfrifoldebau i'r cynghorau yn golygu y bydd yr ardal bellach yn gweithredu yn yr un ffordd â gweddill Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Strydlun:

"Bydd trosglwyddo'r pwerau Gorfodi Parcio yn galluogi'r cyngor i ddarparu dull cyson a chydlynol o orfodi rheoliadau traffig a bydd yn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd, llif y traffig a lleihau rhwystrau ar y ffyrdd.

"Byddwn yn chwarae ein rhan yn y gwaith o greu cymunedau bywiog a diogel ar gyfer preswylwyr a busnesau, felly byddwn yn targedu ein adnoddau mewn ardaloedd allweddol fel canol trefi prysur, y tu allan i ysgolion a mannau prysur eraill, yn ogystal ag ardaloedd preswyl."

Mae'r pump awdurdod lleol wedi gwneud cytundeb gyda chyngor Rhondda Cynon Taf (RhCT) fydd yn darparu cymorth gweinyddol a 'swyddfa gefn' i'r cynllun. Mae RhCT wedi bod yn cyflawni'r gwasanaeth hwn yn ei hardal ers sawl blwyddyn ac mae ganddyn nhw staff profiadol a systemau perthnasol ar waith.

COFIWCH YR ŴYL FWYD

Bydd Gŵyl Fwyd boblogaidd Casnewydd yn ei hôl eto eleni, ar ddydd Sadwrn 5 Hydref.

Mae'r digwyddiad wedi denu miloedd o ymwelwyr i ganol y ddinas yn gyson ers cael ei greu, ac mae cynlluniau eleni yn bwrw ymlaen yn dda.

Mae rhagor o wybodaeth ar **www.newportfoodfestival.co.uk** neu gallwch ddilyn yr ŵyl fwyd ar y cyfryngau cymdeithasol.

GWASANAETH TELEOFAL NEWYDD

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol yng Nghaerffili a Sir Fynwy i ddarparu gwasanaeth teleofal newydd i drigolion.

Mae disgwyl iddo ddechrau ar 1 Ebrill, a bydd ar gael i bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol sydd yn nodi y gallai technoleg gynorthwyol eu helpu gyda'u bywyd o ddydd i ddydd.

Gall Teleofal helpu pobl, gan gynnwys rhai â dementia, epilepsi neu rai sy'n dueddol o syrthio, i deimlo'n fwy diogel gartref a gwybod bod help wrth law pan fo angen

Gall pobl nad ydyn nhw ar gynllun gofal a chymorth brynu gwasanaethau Teleofal.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â 01633 656656.

ERLYN SIOPAU PRYDAU PAROD AM WERTHU BWYD ANNIOGEL

Mae tair siop tecawê yng Nghasnewydd wedi'u herlyn am werthu bwyd anniogel.

Cafwyd eu bod yn torri rheoliadau diogelwch bwyd ar ôl i swyddogion safonau masnach Cyngor Dinas Casnewydd esgus bod yn gwsmeriaid gydag alergedd wy yn rhan o arolwg alergenau.

Aeth swyddogion i 10 siop tecawê rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017 ac wrth esgus bod yn gwsmeriaid, archebon nhw reis arbennig wedi'i ffrio o'r bwydlenni gan ddweud bod ganddynt alergedd wy ac na ddylai fod unrhyw wy yn y prydau.

Ar ôl i'r prydau gael eu rhoi i'r swyddogion, dywedon nhw eu bod yn swyddogion yn cynrychioli adran safonau masnach y Cyngor a samplon nhw'r prydau a'u hanfon wedyn i'r Dadansoddwr Cyhoeddus. Canfuwyd bod tri o'r 10 siop tecawê wedi cyflenwi bwyd â lefelau uchel o wy.

O ganlyniad pleiodd dwy siop tecawe'n euog yn Llys Ynadon Cwmbrân ar 6 Awst 2018 i gyhuddiadau o werthu bwyd anniogel a bwyd nad oedd o'r natur y gofynnwyd amdano gan y prynwr.

Rhoddwyd dirwy o £200 gyda chostau o £900 yr un i The Oriental Long Limited, sy'n masnachu fel The Oriental, Corporation Road, Casnewydd a Shelax Limited, sy'n masnachu fel Jasmine Rice, Commercial Road, Casnewydd. Hefyd, rhoddwyd dirwy o £100 i'r bobl sy'n rheoli'r ddau fusnes, Jian Long Xie a Ke Gei Lu, yn y drefn honno.

Ar 17 Ionawr 2019 yn Llys Ynadon Casnewydd, pleiodd Lukas Lai sy'n masnachu fel The Great Wall, Cromwell Road, Casnewydd, i'r un troseddau ar ôl dewis mynd i dreial yn gyntaf. Cafodd ddirwy o £2,419 a bydd rhaid iddo dalu costau o £2,189.

CASNEWYDD I GROESAWU ATHLETWYR YSBRYDOLEDIG

Cynhelir Gemau Trawsblannu Prydain yng Nghasnewydd rhwng 25 a 28 Gorffennaf 2019. Mae disgwyl i'r digwyddiad ddenu dros 850 o athletwyr sydd wedi cael trawsblaniad a dros 1,500 o gefnogwyr, gan gynnwys teuluoedd sydd wedi rhoi organau, i'r ddinas.

Mae'r gemau wedi'u trefnu ar ran yr elusen Transplant Sport UK, a'r nod yw codi ymwybyddiaeth o roi organau a chynyddu nifer yr organau sy'n cael eu rhoi.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Debbie Wilcox:

"Mae'n anrhydedd cael croesawu'r Gemau i'n dinas. Mae gan Gasnewydd hanes rhagorol o gynnal digwyddiadau chwaraeon gan gynnwys Cwpan Ryder, y Felothon, pencampwriaethau beicio trac a gwersylloedd hyfforddi Olympaidd a Pharalympaidd – ond bydd y digwyddiad hwn yn rhywbeth arbennig i'r ddinas. Mae'r athletwyr hyn wir yn ysbrydoli a daw'r Gemau â neges hynod bwysig."

Mae Gemau Trawsblannu Prydain Westfield Health yn cynnwys mwy na 25 o ddigwyddiadau chwaraeon a chymdeithasol a chystadlaethau i bobl o bobl gallu, o bysgota i drac a chae, gan gynnwys Ras y Rhoddwyr - digwyddiad cynhwysol a fydd yn agored i'r cyhoedd.

Daw dros 50 o dimau o ysbytai o bob cwr o'r DU ynghyd i rannu eu profiadau personol, i gystadlu, ac i ddiolch i'r teuluoedd sydd wedi rhoi organau, sy'n dod yn rhan gynyddol o'r Gemau.

Bydd y Gemau'n ategu ymgyrchoedd sy'n digwydd yn lleol i addysgu a chodi ymwybyddiaeth am roi organau a phwysigrwydd rhannu'ch penderfyniad â'ch anwyliaid.

I gael rhagor owybodaeth, ewch i **www.britishtransplantgames.co.uk**

Lansiwyd y Gemau yn swyddogol trwy gynnau Fflam y Teuluoedd sydd wedi Rhoi Organau.

DIGWYDDIAD CYMUNEDOL I GODI ARIAN AT ACHOS DA

Bydd Clwb Pêl-droed Casnewydd yn uno â Chasnewydd Fyw i gynnal taith gerdded noddedig gyntaf Casnewydd dros ddementia at Gymdeithas Alzheimer Cymru ddydd Sul 7 Ebrill.

Bydd y daith hamddenol 3cilometr yn cychwyn am 11am yn Theatr Glan yr Afon ac mae ar agor i bob oedran a gallu.

Mae Casnewydd eisoes wedi ei chydnabod yn ddinas sy'n deall dementia. Gydag amcangyfrif bod 2,000 o bobl yn byw â dementia yma, gwnaiff yr arian a godir trwy'r daith gerdded wahaniaeth go iawn wrth helpu teuluoedd y mae'r afiechyd yn effeithio arnyn nhw.

Syniad Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Clwb Pêl-droed Sir Casnewydd, Colin Faulkner, ydy'r daith. Dywedodd:

"Fel y clwb cyntaf o'r gynghrair bêl-droed yng Nghymru i ddod yn sefydliad sy'n deall dementia, mae'n bwysig i ni gefnogi'r gymuned y mae ein cefnogwyr, perchnogion a ffans yn byw ynddi. Rydyn ni'n gobeithio mai hon fydd y gyntaf mewn cyfres o deithiau blynyddol dros Gymdeithas Alzheimer Cymru,ac y bydd yn tyfu bob blwyddyn."

MARATHON A 10K YN DYCHWELYD YN Y GWANWYN

Bydd Marathon dra llwyddiannus ABP Casnewydd Cymru a'r ras 10K 'nôl yn y ddinas ar ddydd Sul 5 Mai.

Daeth llu o redwyr o bob cwr y byd i ddigwyddiad y llynedd, ymgasglodd miloedd o gefnogwyr ar y strydoedd a rhoddodd cannoedd o wirfoddolwyr gymorth ar hyd y llwybr cyflym a gwastad.

Mae trefniadau cau ffyrdd, trafnidiaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y digwyddiad oll wedi eu hadolygu, ac mae'r gwelliannau ar gyfer eleni yn cynnwys mynediad gwell i breswylwyr sy'n byw ar hyd y llwybr, pentref ras ac adloniant yn nes at y canol a chyfleuster parcio a theithio wedi eu hadolygu ar gyfer raswyr.

Er na fydd y meysydd parcio yn Kingsway/Usk Way (Emlyn Street/ Friars Walk/Glan yr Afon) ar gael ar ddiwrnod y digwyddiad, bydd holl feysydd parcio eraill canol y ddinas, yn cynnwys maes parcio Canolfan Kingsway, yn gwbl hygyrch ac mewn lleoliad perffaith ar gyfer y rhai sydd am ddod ar y dydd.

Mae amser eto i gofrestru - am ragor o fanylion y digwyddiad a sut mae cymryd rhan, ewch i **www.newportwalesmarathon.co.uk**



CEFNOGI BUSNESAU YNG NGHASNEWYDD

Mae tîm arbenigol y cyngor yn cynnig cymorth i fusnesau - rhai sy'n cychwyn a rhai sydd wedi sefydlu yn y ddinas neu sydd am symud i Gasnewydd. Yn ogystal â chyngor ymarferol, mae cynllun grantiau i gynorthwyo busnesau newydd neu fusnesau sy'n tyfu.

Yn ein rhifyn diwethaf, arddangosom fusnesau annibynnol newydd a dderbyniodd gymorth i sefydlu yn Arcêd Casnewydd. Yma, rydym yn cyflwyno projectau ailddatblygu eraill yng nghanol y ddinas.

Cafodd 4-5 Market Street ei adfywio pan drawsnewidiwyd yr eiddo yn 11 fflat fforddiadwy ar y lloriau uchaf, ac ar y llawr gwaelod mae Fixxed, busnes cyffrous sy'n tyfu ac yn cynnig siop farbwr, hyfforddiant ffitrwydd ac ymladd a therapi chwaraeon.

"Bu'r cyngor yn rhagweithiol, sy'n annhebyg i'r hyn rydyn ni wedi ei weld mewn trefi a dinasoedd eraill. Bu'n chwa o awyr iach ac yn safon aur i gynghorau eraill ei efelychu," dywedodd Andrew Price o Alandy Investment Properties.

Gerllaw, yn Upper Dock Street, mae gwaith yn mynd rhagddo ar wyth fflat foethus a phedair uned fanwerthu ar y llawr gwaelod mewn adeilad a fu gynt yn adfail a hyll.

Cafodd y cwmni datblygu fenthyciad trwy gynllun Cyllid Ad-daladwy Canol y Ddinas sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy'r cyngor i helpu i ostwng nifer y safleoedd ac eiddo gwag na chânt eu defnyddio. Wedi ad-dalu'r benthyciad, gellid ei ddefnyddio eto i ariannu cynlluniau newydd.

Dros yr afon mae gwesty-fflatiau newydd Casnewydd, a'r unig un yn y ddinas, ac ohoni mae'r golygfeydd hyfrytaf o blith holl lety'r ddinas. Mae Quay Apartments yn Clarence House yn cynnwys fflatiau cyfoes un a dwy ystafell wely.

Rhoddodd y cyngor gymorth iddynt wrth ddod o hyd i eiddo datblygu addas ac mae'n parhau i weithio'n agos â'r busnes teuluol wrth iddo fynd ati i ehangu ei bresenoldeb yng Nghasnewydd. **www.newport.gov.uk/business**

4-5 Market Street ar ei newydd wedd

ARBEDWCH AMSER A MYND AR-LEIN

Mae ap a system ar-lein newydd Cyngor Dinas Casnewydd, Fy Nghasnewydd, yn rhoi gwasanaethau'r Cyngor ar flaen eich bysedd ac yn eich galluogi i roi gwybod am bethau, gwneud ceisiadau a thalu 24 awr y dydd.

Mae Fy Nghasnewydd yn eich galluogi i gofrestru fel defnyddiwr ac olrhain cynnydd eich ceisiadau a throsglwyddiadau.

Dywedodd y Cynghorydd David Mayer, aelod cabinet dros y gymuned ac adnoddau: *"Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i'n preswylwyr gyfathrebu gyda ni a gofyn am y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Er y byddwn yn parhau i groesawu galwadau ac ymholiadau wyneb yn wyneb, bydd y system newydd hon yn ei gwneud hi'n llawer haws i bobl gysylltu pan fo'n gyfleus iddyn nhw – a gallu gweld beth sy'n digwydd gyda'u cais yn hawdd."*

O dipio anghyfreithlon, i dreth gyngor, cyngor tai i gofrestru genedigaeth, mae Fy Nghasnewydd yn rhoi cannoedd o wasanaethau'r cyngor ar flaen eich bysedd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.newport.gov.uk** neu chwiliwch am **'Newport Council'** ar eich siop app.

CYFLWYNO GOLEUADAU LED TRA EFFEITHLON

Bydd goleuadau stryd ymlaen am ddwy awr ychwanegol bob nos dan gynllun gan Gyngor Dinas Casnewydd i gyflwyno Goleuadau LED effeithlon iawn trwy'r ddinas.

Bydd y cynllun hefyd yn arbed arian ac yn galluogi'r cyngor i ostwng yr ynni mae'n ei ddefnyddio a'i allyriadau carbon gan 6.5 y cant y flwyddyn, cam pwysig tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cyngor wedi gosod golau LED yn lle hen oleuadau nad oedd modd eu trwsio, ac mae 3,262 o'r 18,519 o oleuadau stryd sydd yn y ddinas erbyn hyn yn rhai LED.

Yn dilyn adroddiad mewnol cynhwysfawr ar oleuadau stryd, dangosodd cost gweithredu stoc goleuadau'r ddinas fod achos busnes cryf dros newid i oleuadau LED, yn enwedig gan y bydd costau trydan yn codi yn y dyfodol a gan fod rhaid lleihau allyriadau carbon.

Y llynedd, roedd cost gweithredu goleuadau, arwyddion, signalau a bolardiau strydoedd y ddinas yn £993,960. Wedi blwyddyn o newid i LED gallai'r bil trydan leihau gan dros £500,000 y flwyddyn.

Mae'r cynllun hefyd yn cydymffurfio ag amcan cynllun corfforaethol y cyngor i hybu twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd hefyd.

Oherwydd yr arbedion ac effeithlonrwydd goleuadau LED, bydd y goleuadau ynghyn tan hanner nos, yn hytrach na 10pm fel o'r blaen.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, aelod cabinet dros y strydlun, y daw'r cynigion goleuadau LED â nifer o fanteision i'r ddinas:

"Bydd newid ein goleuadau stryd yn oleuadau LED tra effeithlon yn rhoi'r gallu i ni gadw'r golau ymlaen am ddwy awr yn ychwanegol, tan hanner nos yn hytrach na 10pm, rhywbeth a wnaiff yr amgylchedd yn ddiogelach ac a fydd yn siŵr o fodloni ein trigolion.

"Mae'r goleuadau LED hefyd yn gost-effeithlon a byddant yn helpu i ostwng faint o ynni a ddefnyddir a chyfanswm yr allyriadau carbon, sy'n darged a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru."

DIGWYDDIADAU

THEATR GLAN YR AFON
01633 656656
www.newportlive.co.uk/**riverfront**

12 Mawrth
Peter and the Wolf
Cwmni teithiol Allegrodance sy'n cyflwyno'r fale hon, sy'n cynnwys dawns jazz, tap, Sbaenaidd a stryd.

15 Mawrth
Jason Donovan and his Amazing Midlife Crisis
Aiff y sioe hunangofiannol hon â ni ar daith igam-ogam trwy ei fywyd, yn cynnwys straeon am Neighbours, Ten Good Reasons, Kylie, Joseph, I'm a Celebrity, Strictly a mwy.

28 Mawrth
Here Come the Girls: Chloe Hewitt, Dianne Buswell, Amy Dowden
Mae'r sioe newydd hon yn cyflwyno'r sêr dawns proffesiynol mewn cymysgedd o berfformiadau unigol a grŵp ar ddulliau dawnsfa a dawns Ladinaidd gyda'r piano.

22 Ebrill
The Carpenters Story
Ail-gread o'r llyfr caneuon clasurol a wnaeth The Carpenters yn chwedlonol ym myd cerddoriaeth bop.

ORIEL AC AMGUEDDFA CASNEWYDD
01633 656656
www.newport.gov.uk/**heritage**

12 Mawrth
Sgwrs: Trysorau Casgliad Astudiaethau Lleol Llyfrgelloedd Casnewydd
Sgwrs a drefnwyd gan Gyfeillion Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd.

THEATR DOLMAN
01633 263670
www.dolmantheatre.co.uk

21-23 Mawrth
Chicago

9 – 13 Ebrill
Death of a Salesman
Cymdeithas Gwylwyr Dramâu Casnewydd yn cyflwyno drama benigamp gan Arthur Miller. Mae Death of a Salesman yn adrodd hanes dyddiau olaf Willy Loman, sy'n gweld bod ei werthiannau, a'i feddwl, yn llithro.